# BLAENRAGLEN BUSNES CABINET ARFAETHEDIG

**CYFNOD: 1 RHAGFYR 2018 - 31 MAWRTH 2019**

**CRYNODEB O’R PENDERFYNIADAU DISGWYLIEDIG FYDD YN CAEL EU GWNEUD MEWN CYFARFODYDD CABINET**

**Cysylltwch â’r Swyddfa Cefnogi’r Cabinet (2087 2396) os oes arnoch angen rhagor o wybodaeth**

| Teitl yr Adroddiad | Crynodeb o'r Materion a'r Argymhelliad Arfaethedig | Statws goleuadau traffig craffu | Ymgynghoreion | Pwy fydd yn gwneud y Penderfyniad |
|---|---|---|---|---|

**13 December 2018**

**Arweinydd**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Siarter Cynghorau Cymuned | Diweddaru'r Siartr y cytunwyd arno â'r Cynghorau Cymuned ac a fabwysiadodd y Weithrediaeth yn 2012 gyda'r nod o gynorthwyo cyfathrebu a chysylltiad strwythuredig a rheolaidd rhwng Cynghorau Cymuned a'r chwe Chyngor Cymuned yng Nghaerdydd | Green/Gwyrdd | Cynghorau Cymuned | Cabinet |

**Diwylliant a Hamdden**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Meysydd y Canmlwyddiant | Mae Fields in Trust, y National Playing Fields Association gynt, mewn partneriaeth â'r Lleng Prydeinig, wedi datblygu menter ledled y DU i goffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf ac i anrhydeddu'r rheini a gollodd eu bywydau mewn gwrthdaro. Mae'r fenter yn galw ar dirfeddianwyr i gymryd rhan drwy neilltuo mannau hamdden, sy'n cynnwys cofeb ryfel fel meysydd y canmlwyddiant drwy weithred anelusennol. Ceisir cael cymeradwyaeth yr adroddiad i neilltuo gerddi Alexandra yn ward Cathays a gerddi'r Grange yn ward Grangetown. | Green/Gywrdd | | Cabinet |

**Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion: Ysgolion yr 21ain Ganrif (Band B) Ysgol Uwchradd Cantonian | Yn ei gyfarfod ar 14 Rhagfyr ystyriodd y Cabinet adroddiad yn nodi cynlluniau â blaenoriaeth y Cyngor yn rhan o Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Band B. Mae'r adroddiad hwn yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ymgynghori ar y cynigion i ddatblygu'r Safle Ysgol Uwchradd Cantonian presennol, yn unol â chynlluniau â blaenoriaeth Band B. | Amber/Ambr | Bydd ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei gynnal gydag Aelodau, y gymuned leol, staff, Llywodraethwyr a'r | Cabinet |

| Report Title | Summary of Issues & Proposed Recommendation | Scrutiny Traffic light status | Consultees | Decision Maker |
|---|---|---|---|---|
| | | | ysgolion, ysgolion lleol eraill, disgyblion a rhanddeiliaid eraill yn unol â'r gofynion statudol. | |
| Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion: Y ddarpariaeth o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg yn ardal Llanrhymni | Yn ei gyfarfod ar 12 Gorffennaf 2018, mae Swyddogion Awdurdodedig y Cabinet i fynd ymlaen i ymgynghori â'r cyhoedd ynghylch cynigion i resymoli lleoedd mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg yn Llanrhymni yn cynnwys cynnig i gau ysgol Gynradd Glan-yr-Afon ym mis Awst 2019. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r safbwyntiau a fynegwyd yn ystod yr ymgynghoriad gydag argymhellion ynghylch sut i fwrw ymlaen. | Amber/Amber | Ymgynghorir ag amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys aelodau, Penaethiaid, staff ysgolion, rhieni, plant a thrigolion lleol fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus. | Cabinet |
| Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion: cynnig i wneud newid rheoleiddiedig i ysgol arbennig Greenhill | Nod yr adroddiad hwn yw rhoi gwybod i'r Cabinet am addasiad i'r cynnig i wneud newid a reoleiddir i ysgol arbennig Greenhill drwy ymestyn yr ystod oedran o 11-16 i 11-19 a cheisio cytundeb ar gyfer y dyddiad diwygiedig ar gyfer gweithredu'r cynnig o 01 Medi 2019. | Green/Gwyrdd | | Cabinet |

**Cyllid, Moderneiddio a Pherfformiad**

| Report Title | Summary of Issues & Proposed Recommendation | Scrutiny Traffic light status | Consultees | Decision Maker |
|---|---|---|---|---|
| Cofrestr Risg Corfforaethol - Adolygiad Canol y Flwyddyn 2018/19 | Bydd yr adroddiad yn rhoi gwybod i'r Cabinet am y prif risgiau sy'n wynebu'r Cyngor. Bydd y Cabinet wedi gweld y Gofrestr Risgiau Corfforaethol mewn Cyfarfod Cabinet ym mis Gorffennaf 2018. Bydd uwch swyddogion yn adolygu'r ddogfen yn chwarterol a'r Cabinet yn gwneud hynny unwaith pob 6 mis.<br><br>Mae perchnogion Risg Corfforaethol ar lefel Cyfarwyddwyr, a byddant yn rhoi mewnbwn i adolygu'r ddogfen hon. | Green/Gwyrdd | | Cabinet |
| Stadiwm Y Mileniwm Plc-Gwelliannau I Erthyglau Cymdeithasu | I alluogi'r Cyngor, fel y Rhanddeiliad Arbennig yn Millenium Stadium plc, i ystyried rhoi caniatâd i newidiadau arfaethedig i Erthyglau Cymdeithasu'r cwmni a threfniadau ariannol cysylltiedig. | Green/Gwyrdd | | Cabinet |
| Cyfrif Sylfaen y Dreth Gyngor 2019/20 | Mae gan y Cyngor ymrwymiad statudol i gytuno sail treth gyngor erbyn 31 Rhagfyr bob blwyddyn. Mae'r penderfyniad hwn wedi'i ddirprwyo i'r Cabinet. | Green/Gwyrdd | | Cabinet |

**Buddsoddi a Datblygu**

| Report Title | Summary of Issues & Proposed Recommendation | Scrutiny Traffic light status | Consultees | Decision Maker |
|---|---|---|---|---|
| Cymeradwyaeth i gaffael safle ddatblygu tai yn Iorwerth Jones, Trenchard Drive, Llanisien o Gaerdydd a Bwrdd Iechyd y Fro. | Mae gan y Cyngor y cyfle brynu cyn gartref gofal, Iorwerth Jones, gan y Bwrdd Iechyd am swm cytunedig. Gan fod hyn dros £ 1m Mae angen cymeradwyaeth y Cabinet.<br>Mae briff cynllunio wedi'i gynnal sy'n nodi'r potensial datblygu a chyfyngiadau ar gyfer cynllunio. Mae gwaith ymchwilio safle wedi cael ei wneud fel yn ogystal â diwydrwydd dyladwy. Gwnaed asesiad hyfywedd sy'n nodi bod cynllun tai cyngor ar y safle hwn yn ddichonol.<br>Mae galw mawr am dai yn yr ardal hon ac mae amrywiaeth o | Green/Gwyrdd | | Cabinet |

| Report Title | Summary of Issues & Proposed Recommendation | Scrutiny Traffic light status | Consultees | Decision Maker |
|---|---|---|---|---|
| | gartrefi teuluol a nifer fechan o fflatiau ar gyfer rhent y cyngor yn cael eu cynnig. | | | |
| Prynu buddiant prydles hir ar Bessemer Close. | Mae'r Cyngor yn berchen ar y buddiant rhydd-ddaliadol mewn tua 2 erw ar Bessemer Close wrth ymyl y CAGC bresennol. Caiff yr ased ei osod ar brydles tir 125 blwyddyn o fis Rhagfyr 1990 am rent rhad. Mae gan denant y Cyngor denant galwedigaethol i Biffa Waste am 15 mlynedd o 2017 gyda rhent taladwy presennol o £80,000 y flwyddyn.<br>Mae llog y brydles hir ar y farchnad am £ 1.25m. | Green/Gwyrdd | | Cabinet |

**Tai a Chymunedau**

| Report Title | Summary of Issues & Proposed Recommendation | Scrutiny Traffic light status | Consultees | Decision Maker |
|---|---|---|---|---|
| Adolygiad a Strategaeth Digartrefedd 2018-2022 | Dan Adran 50 Deddf Tai (Cymru) 2014, mae'n rhaid i awdurdod tai lleol ymgymryd ag adolygiad digartrefedd i'w ardal, a chreu a mabwysiadu strategaeth ddigartrefedd yn seiliedig ar yr adolygiad hwnnw. Mae'n rhaid i'r Cyngor fabwysiadu strategaeth digartrefedd yn 2018 a strategaeth digartrefedd newydd pob pedair blynedd ar ôl hynny.<br><br>Cynhaliwyd adolygiad o'r data sydd ar gael, yn archwilio'r prif achosion digartrefedd yng Nghaerdydd, yn canolbwyntio ar brif themâu atal, llety a chymorth.<br><br>Bydd prif ganfyddiadau o'r adolygiad yn cael eu defnyddio i lywio'r Strategaeth Digartrefedd fydd yn defnyddio dull cydlynol o ran taclo ac atal y mater hwn. Bydd y Strategaeth yn adnabod y gwasanaethau sydd ar gael a sut gallent gael eu gwella i sicrhau bod pobl yn derbyn cymorth a chefnogaeth priodol ac amserol. | Amber/Ambr | Gofynnwyd am sylwadau gan sefydliadau partner ynglŷn â'r gwasanaethau digartrefedd ac mae'r rhain wedi'u defnyddio'n rhan o'r adolygiad. Cynhaliwyd adolygiad cleientiaid i gael barn a phrofiadau'r defnyddwyr gwasanaeth.<br><br>Bydd ymgynghoriad anffurfiol ar y | Cabinet |

| Report Title | Summary of Issues & Proposed Recommendation | Scrutiny Traffic light status | Consultees | Decision Maker |
|---|---|---|---|---|
| | | | strategaeth yn digwydd ym mis Tachwedd unwaith y mae drafft llawn wedi dod i ben. | |

**24 January 2019**

**Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau**

| Report Title | Summary of Issues & Proposed Recommendation | Scrutiny Traffic light status | Consultees | Decision Maker |
|---|---|---|---|---|
| Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion: Ysgolion yr 21ain Ganrif (Band B) Ysgol Uwchradd Fitzalan | Yn ei gyfarfod ar 14 Rhagfyr ystyriodd y Cabinet adroddiad yn nodi cynlluniau â blaenoriaeth y Cyngor yn rhan o Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Band B. Bydd yr adroddiad hwn yn nodi'r cynnig i ail-adeiladu Ysgol Uwchradd Fitzalan fel ysgol uwchradd 11-18 newydd gyda 10 dosbarth mynediad ac yn manylu'r ymatebion i'r ymgysylltiad cyhoeddus. | Amber/Amb r | A public engagement will be undertaken with Members, the local community, staff and Governors of the school, other local schools, pupils and other stakeholders. Bydd ymgysylltiad cyhoeddus yn cael ei gynnal gydag Aelodau, y gymuned leol, staff a Llywodraethwyr yr ysgol, ysgolion lleol eraill, disgyblion a rhanddeiliaid eraill. | Cabinet |

| Report Title | Summary of Issues & Proposed Recommendation | Scrutiny Traffic light status | Consultees | Decision Maker |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| Perfformiad Ysgolion Caerdydd | Mae'r adroddiad yn darparu gwerthusiad o berfformiad ysgolion Caerdydd yn y flwyddyn academaidd 2017/18. Mae'r adroddiad yn defnyddio ystod o ddangosyddion perfformiad gan gynnwys cyrhaeddiad, presenoldeb, gwaharddiadau a nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant | Green/Gwyrdd | | Cabinet |

**Cyllid, Moderneiddio a Pherfformiad**

| Report Title | Summary of Issues & Proposed Recommendation | Scrutiny Traffic light status | Consultees | Decision Maker |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| Cyfraddau Nad ydynt yn Ddomestig Cenedlaethol - Dyledion a Ddilewyd | Diben yr adroddiad fydd cael caniatâd ffurfiol i ddileu dyledion cyfradd annomestig cenedlaethol sy'n fwy na £100,000 mewn gwerth. Gwneir y cais yn unol â rhan 3, adran 2, o gyfansoddiad Cyngor Caerdydd, swyddogaeth gwneud penderfyniadau gweithredol rhif 20.<br><br>Mae'r dyledion sydd i'w dileu yn fwy na'r lefel y mae gan swyddogion bwerau dirprwyedig i ddelio â hi, ac felly mae angen awdurdodiad gan y weithrediaeth. | Green/Gwyrdd | | Cabinet |

**Tai a Chymunedau**

| Report Title | Summary of Issues & Proposed Recommendation | Scrutiny Traffic light status | Consultees | Decision Maker |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| Strategaeth i ddarparu o leiaf 2,000 o gartrefi Cyngor newydd | Mae'r Cyngor wedi gosod targed o ddarparu o leiaf 2,000 o gartrefi Cyngor newydd, ohonynt mae'n rhaid darparu 1,000 erbyn mai 2022. Mae'r adroddiad yn nodi'r strategaeth ar gyfer cyflawni'r targed, yn nodi'r llwybrau cyflawni, yn rhoi manylion y dyraniadau tir sydd eu hangen ac yn nodi ' protocol tai ' gyda stadau er mwyn sicrhau nad yw cyfleoedd tir yn cael eu colli. | Green/Gwyrdd | | Cabinet |
| Llety â chymorth i bobl ifanc - Anghenion Cymhleth | Mae gan y Cyngor y cyfle i ymrwymo i 'gytundeb tir' gyda Chymdeithas Tai Hafod (a elwir yn gytundeb bargen) ar gyfer adeiladu a chyflwyno 10 uned o fewn Hostel Pobl Ifanc, am bris | Amber/Ambr | | Cabinet |

| Report Title | Summary of Issues & Proposed Recommendation | Scrutiny Traffic light status | Consultees | Decision Maker |
|---|---|---|---|---|
| | cytunedig.<br><br>Mae Cymdeithas Tai Hafod yn ceisio cytundeb 'mewn egwyddor' y bydd y Cyngor yn llunio Pecyn Bargen ar gyfer y datblygiad yn amodol ar gytuno ar Benawdau Telerau. Yn ystod y cyfnod hwn os rhoddir penderfyniad mewn egwyddor, bydd Hafod yn prynu'r tir ac yn cyflwyno cais cynllunio ar gyfer y datblygiad.<br><br>Os bydd y cynllun yn mynd rhagddo, bydd Hafod yn rheoli'r prosiect ac yn llunio contract adeiladu gyda datblygwr ac yn trosglwyddo'r eiddo i'r Cyngor ar ôl iddo gael ei gwblhau, gyda'r holl osodiadau. Contract pris sefydlog fydd hwn a bydd Hafod yn rheoli pob agwedd ar yr adeiladu.<br><br>Byddai'r Cyngor ond yn ymrwymo i becyn bargen ar yr amod bod Hafod yn berchen ar y tir, yn cael caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad derbyniol ac yn ddarostyngedig i gostau sefydlog, sy'n ddichonadwy i'r Cyngor o fewn ein model hyfywedd ariannol. | | | |

**Buddsoddi a Datblygu**

| Report Title | Summary of Issues & Proposed Recommendation | Scrutiny Traffic light status | Consultees | Decision Maker |
|---|---|---|---|---|
| Papur Gwyn Economaidd | Yn 2017 cyhoeddodd y Cyngor 'Mwy o Swyddi a Swyddi Gwell', Papur Gwyrdd Strategaeth Economaidd. Mae'r adroddiad yn rhan o'r broses ymgynghori ac yn cyflwyno'r Papur Gwyrdd dilynol. | Amber/Ambr | | Cabinet |
| Ffordd Dumballs | Bydd yr adroddiad hwn yn cyflwyno uwchgynllun newydd ar gyfer Dumballs Road a chreu tai fforddiadwy Cyngor Caerdydd. | Amber/Ambr | | Cabinet |
| Llety Swyddfa Craidd | Bydd yr adroddiad yn diweddaru'r Cabinet ar y gwaith i ddatblygu cynigion i Lety Swyddfa Craidd i'r dyfodol ar gyfer y Cyngor, sydd â'r | Amber/Ambr | | Cabinet |

| Report Title | Summary of Issues & Proposed Recommendation | Scrutiny Traffic light status | Consultees | Decision Maker |
|---|---|---|---|---|
| | nod o leihau costau gweithredol, y gwaith cynnal a chadw a rhoi cyfleusterau gwell. | | | |
| Disposals | | | | Cabinet |
| Cyflwyno Strategaeth Ddiwydiannol Dwyrain Caerdydd newydd | Ceisio cymeradwyaeth y Cabinet am Strategaeth Ddiwydiannol Dwyrain Caerdydd. | Amber/Amb r | | Cabinet |

**Gofal cymdeithasol iechyd a Lles / Plant a Theuluoedd**

| Report Title | Summary of Issues & Proposed Recommendation | Scrutiny Traffic light status | Consultees | Decision Maker |
|---|---|---|---|---|
| Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Llesiant | Bydd yr adroddiad yn amlinellu cynigion i gomisiynu gwasanaeth ar gyfer gwasanaeth byw â chymorth i oedolion ag anableddau dysgu er mwyn sicrhau gwasanaeth a model o gymorth i wneud y gorau o ddewis a rheolaeth i bobl. | green/Gwyr dd | | Cabinet |
| Adroddiad Blynyddol Diogelu Corfforaethol 2017/18 | Diweddaru aelodau'r Cabinet ynghylch y gwaith a wnaed i wella'r trefniadau corfforaethol ar gyfer diogelu ac amddiffyn plant ac oedolion y mae angen gwasanaethau penodol y Cyngor a sicrhau bod y trefniadau hyn yn effeithiol. | Amber/Amb r | | Cabinet |

**Cynllunio Strategol a Thrafnidiaeth**

| Report Title | Summary of Issues & Proposed Recommendation | Scrutiny Traffic light status | Consultees | Decision Maker |
|---|---|---|---|---|
| Gosod goleuadau strydoedd preswyl LED trwy'r ddinas a | Mae cyflawniad goleuadau stryd LED ar y rhwydwaith ffyrdd strategol wedi llwyddo i gefnogi lleihad mewn defnydd ynni ac Ôl-Troed Carbon Caerdydd. | Amber/Amb r | | Cabinet |

| Report Title | Summary of Issues & Proposed Recommendation | Scrutiny Traffic light status | Consultees | Decision Maker |
|---|---|---|---|---|
| datblygu seilwaith SMART | Mae peilot preswyl yn Radur yn dangos bod pryderon ynghylch goleuadau stryd LED mewn ardaloedd preswyl.<br><br>Mae datblygu goleuadau stryd LED preswyl 'buddsoddi i arbed' yn rhoi cyfleoedd pellach i leihau defnydd ynni ac Ôl-Troed Carbon Caerdydd.<br><br>Bydd cysylltu goleuadau stryd LED i System Reoli Canolog yn galluogi gweithrediad seilwaith SMART. Bydd yr adroddiad yn adnabod y buddion a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â seilwaith SMART i brojectau i'r dyfodol. | | | |
| Canllawiau Cynllunio Atodol Addasu Fflatiau | Mae'r adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer canllawiau cynllunio atodol pellach i'r cynllun datblygu lleol, a fabwysiadwyd yn 2016. Mae'r ddogfen hon yn manylu ar ganllawiau cynllunio ar gyfer datblygwyr sy'n trosi unedau dibreswyl neu eiddo presennol yn fflatiau. Mae'r canllawiau yn amlinellu cyfres o safonau ac egwyddorion o ran dylunio, amwynder, ac am y tro cyntaf, safonau gofod, sy'n ceisio sicrhau nad yw fflatiau bach iawn yn cael eu datblygu. Mae hefyd yn egluro gofynion parcio a gwastraff. Nid yw'r ddogfen yn ymdrin â fflatiau a adeiledir o'r newydd, sy'n cael eu cynnwys mewn canllawiau eraill. | Green/Gwyrdd | | Cabinet |
| CCA Llety Myfyrwyr | Mae'r adroddiad hwn yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer Canllawiau Cynllunio Atodol Pellach i'r cynllun datblygu lleol a fabwysiadwyd yn 2016. Mae'r canllaw hwn yn ceisio cyflwyno cyngor ac arfer gorau ar gyfer dyluniad a lleoliad llety myfyrwyr, a pha ofynion a safonau sydd eu hangen o ran rheoli gwastraff a pharcio. | Green/Gwyrdd | | Cabinet |
| Polisi Apeliadau | Mae'r ddogfen yn nodi ein canllawiau ar ystyried heriau, | Amber/Amb | | Cabinet |

| Report Title | Summary of Issues & Proposed Recommendation | Scrutiny Traffic light status | Consultees | Decision Maker |
|---|---|---|---|---|
| Dirwyon Parcio | cynrychioliadau ac apeliadau yn erbyn cyhoeddi hysbysiadau tâl cosb yn ogystal â phenderfynu ar brosesau gorfodi i'w dilyn er mwyn sicrhau cysondeb ac ymlyniad i'r ddeddfwriaeth bresennol. | r | | |

**Chwefror 2019**

**Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion: Ysgolion yr 21ain Ganrif (Band B) Ysgol Uwchradd Willows | Yn ei gyfarfod ar 14 Rhagfyr ystyriodd y Cabinet adroddiad yn nodi cynlluniau â blaenoriaeth y Cyngor yn rhan o Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Band B. Ymhlith y blaenoriaethau mae cynnig i Ysgol Uwchradd Willows gael ei ail-adeiladu a'i ehangu i gynnig ysgolion uwchradd 11-16 newydd gydag wyth dosbarth mynediad. Mae'r adroddiad hwn yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ymgynghori ar y cynnig hwn. | Amber/Ambr | Byddwn yn ymgynghori ag ystod o randdeiliaid gan gynnwys Aelodau, Llywodraethwyr, Penaethiaid, staff ysgol, rhieni, plant a phreswylwyr lleol yn rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus. | Cabinet |

**Cyllid, Moderneiddio a Pherfformiad**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Adroddiad y Cyllid 2019/20 | Argymell bod cynigion cyllidebol y Cabinet yn cael eu cymeradwyo gan y Cyngor ynghyd â'r argymhellion statudol angenrheidiol. | Red/Coch | | Cabinet |
| Monitro'r Gyllideb - Adroddiad Mis 9 | Bydd yr adroddiad yn amlinellu sefyllfa monitro ariannol cyffredinol y Cyngor mewn perthynas â chyfrifon cyfalaf a refeniw. Bydd hyn yn | Green/Gwyrdd | | Cabinet |

| Report Title | Summary of Issues & Proposed Recommendation | Scrutiny Traffic light status | Consultees | Decision Maker |
|---|---|---|---|---|
| | cynnwys dadansoddiad o’r prif amrywiaethau’n seiliedig ar naw mis cyntaf y flwyddyn ariannol. | | | |
| Chwarter 3 2018-19 Adroddiad Perfformiad | Mae’r adroddiad hwn yn cyflwyno crynodeb o berfformiad y Cyngor ar gyfer Chwarter 3 y flwyddyn ariannol 2018-19, gan roi cyfle i’r Cabinet i adolygu perfformiad, ystyried unrhyw faterion newydd, a chyfarwyddo unrhyw gamau adferol sydd eu hangen. | Green/Gwyrdd | | Cabinet |
| **Cynllunio Strategol a Thrafnidiaeth** | | | | |
| Project Trafnidiaeth Gorllewin Canol y Ddinas | Mae datblygiad y Sgwâr Canolog ac agoriad y Gyfnewidfa Trafnidiaeth yn y dyfodol yn gofyn am addasiadau i’r rhwydwaith priffyrdd cyfagos. Mae’r addasiadau hyn yn allweddol i lwyddiant y Gyfnewidfa, symudiad diogel cerddwyr yn yr ardal a gosod rhwydwaith beicio ar wahân.<br><br>Mae Heol y Porth yn ardal rheoli ansawdd aer ar hyn o bryd. Bydd y prosiect trafnidiaeth hwn yn cael gwared ar draffig trwodd ac yn gwella ansawdd aer yn sylweddol<br><br>Mae angen trwsio a gwella'r arwynebau priffyrdd, yr isadeileddau a'r palmentydd yn yr ardal. Bydd y prosiect yn darparu atgyweiriadau, a'r gwelliannau sydd eu hangen i gysylltu â'r ardaloedd datblygu a'r stadiwm genedlaethol | Amber/Ambr | | Cabinet |
| Papur Gwyn Trafnidiaeth ac Awyr Glân | Datblygu Papur Gwyn ddrafft a gaiff ei lywio gan yr ymgynghoriad helaeth ar y Papur Gwyrdd ar drafnidiaeth ac aer glân a gynhaliwyd yn ystod gwanwyn 2018. Bydd y Papur Gwyn yn cynnig gweledigaeth hirdymor ar gyfer rhwydwaith trafnidiaeth y ddinas, gan gydweddu'n agos â'r rhaglen waith awyr lân barhaus y mae'r | Amber/Ambr | | Cabinet |

| Report Title | Summary of Issues & Proposed Recommendation | Scrutiny Traffic light status | Consultees | Decision Maker |
|---|---|---|---|---|
| | Cyngor yn ei rhoi ar waith gyda Llywodraeth Cymru. | | | |

**March 2019**

**Childen & Families**

| Report Title | Summary of Issues & Proposed Recommendation | Scrutiny Traffic light status | Consultees | Decision Maker |
|---|---|---|---|---|
| Cynllun strategol i ddarparu canlyniadau ardderchog ar gyfer ein holl blant | Bydd yr adroddiad hwn yn nodi cynllun strategol 3 blynedd i ddarparu canlyniadau rhagorol mewn gwasanaethau plant. Bydd yn nodi sut y bydd y Cyngor a'i bartneriaid yn datblygu dulliau atal, yn gwella arferion, yn cefnogi ac yn datblygu'r gweithlu, yn gwella'r ystod o wasanaethau a gynigir ac yn gwella perfformiad. | Amber/Ambr | | Cabinet |

**Tai a Chymunedau**

| Report Title | Summary of Issues & Proposed Recommendation | Scrutiny Traffic light status | Consultees | Decision Maker |
|---|---|---|---|---|
| Strategaeth Lletya Pobl Hŷn 2018 - 2023 | Mae’r Strategaeth Tai Pobl Hŷn hon yn gosod sut bydd y Cyngor a phartneriaid yn llywio ac yn cyflawni gwasanaethau tai a chysylltiedig i bobl hŷn, a sut gall y ddarpariaeth hon helpu i fynd ar ôl blaenoriaethau iechyd a gofal cymdeithasol ehangach. | Amber/Ambr | Ymgynghoriad preswyl cychwynnol a bore coffi yn Brentwood Court; Clos Y Nant; Minton Court; Tŷ Popular a Thŷ Nelson, mewn perthynas â gwaith gwella sydd wedi’i drefnu ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod. Mae manyleb fanwl ar gyfer pob Cynllun Byw Cymunedol wedi’i datblygu i sicrhau | Cabinet |

| Report Title | Summary of Issues & Proposed Recommendation | Scrutiny Traffic light status | Consultees | Decision Maker |
|---|---|---|---|---|
| | | | cysondeb | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cynllun busnes y Cyfrif Refeniw Tai 2019/20 | Y materion a drafodir yng Nghynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai yw:<br>• nodi diben neu genhadaeth yr awdurdod fel landlord tai cymdeithasol;<br>• nodi amcanion a safonau ar gyfer y gwasanaeth;<br>• cynllunio sut i gyflawni'r amcanion a'r safonau a nodir (y strategaethau);<br>• cynllunio gofynion o ran adnoddau ac arian;<br>• darparu fframwaith ar gyfer monitro a gwerthuso cynnydd y ' busnes ' tai;<br>cyfleu cynlluniau'r awdurdod i'w denantiaid, Llywodraeth Cymru, rhanddeiliaid allweddol eraill, partneriaid a'r gymuned ehangach. | Green/Gwyrdd | | Cabinet |

**Cyllid, Moderneiddio a Pherfformiad**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Datganiad Polisi Tâl 2019/20 | Mae gan y Cyngor hefyd ofyniad statudol o dan Ddeddf Lleoliaeth 2011 i baratoi datganiad polisi tâl yn flynyddol. Roedd y datganiad cyntaf yn ei le erbyn 31 Mawrth 2012 ac maent wedi'u cynhyrchu bob blwyddyn ers hynny. Bydd cytundeb (a chyhoeddi wedyn) y 2019/20 datganiad polisi cyflog blynyddol hwn yn sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â'r ddeddfwriaeth hon. | | | Cabinet<br>Cyngor |